Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus

Public Services Staff Commission

# Adroddiad Blynyddol

## 2016-2017

# Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus yn sefydliad annibynnol anstatudol sy'n cynghori Gweinidogion Cymru a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu y bydd angen cymryd camau a gwneud penderfyniadau yn eu cylch sy'n deillio o ddiwygiadau i wasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur a chyflogwyr ym maes gwasanaethau cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd a rennir gan wasanaethau cyhoeddus a gweithlu gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Rydym yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a sectoraidd er mwyn helpu i ddatblygu a lledaenu trefniadau gweithlu sy'n arfer da ym mhob rhan o'n gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys chwe Chomisiynydd, gan gynnwys y Cadeirydd, ac fe'i cefnogir gan Brif Weithredwr a thîm staff. Ceir rhagor o fanylion ar ein gwefan.

# Sut i gysylltu â Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus:

Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Ffôn: 03000 256137
E-bost: staffcommission@wales-uk.com
Gwefan: www.publicservicesstaffcommission.gov.wales
Twitter: @staffcommission

# Fformatau hygyrch

Mae pob cyhoeddiad ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan ac, os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, mae croeso i chi gysylltu â ni.

OGL © Hawlfraint y Goron 2017 WG31748 ISBN digidol 978-1-4734-9513-5

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 2 |
| Trosolwg | 3 |
| Cyflawniadau allweddol 2016-17 | 3 |
| Ein rôl a’n diben | 4 |
| Cyflawni ein cynllun | 6 |
| Edrych ymlaen | 12 |
| Atodiad A – Cyrff Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn y cwmpas | 14 |

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno hwn, ein hail Adroddiad Blynyddol, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Bu'n flwyddyn ddiddorol a heriol gan fod y Comisiwn Staff, gyda'n partneriaid cymdeithasol, wedi dechrau cyflwyno a mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd lu sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rydym wedi creu tîm bach cryf a phrofiadol i gynorthwyo'r Comisiynwyr wrth iddynt gyflwyno rhaglen waith eang.

Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar weithio ar y cyd â'n partneriaid cymdeithasol; undebau llafur, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru. Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid gan gynnwys rhwydweithiau proffesiynol, ac mae eu cyfraniadau at ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn werthfawr iawn. Hefyd, rwy'n hynod o falch bod llawer o'r cyrff na chânt eu cwmpasu gan ein cylch gwaith wedi parhau i weithio'n adeiladol gyda ni ac yn parchu'r cyngor a'r canllawiau a gynhyrchwyd gennym.

Rwy'n falch ein bod wedi gallu cadw ein haddewidion cynnar ac wedi cyhoeddi dau ganllaw a darn o gyngor pwysig yn ystod y flwyddyn. Cafodd ein cyngor ar y defnydd o drefniadau oriau heb eu gwarantu eu croesawu gan ein partneriaid cymdeithasol, ac rydym yn gobeithio y bydd yn gwneud gwahaniaeth wrth sicrhau bod trefniadau o'r math hwn, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn briodol, yn effeithiol ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon i bobl yng Nghymru a chefnogi arferion gwaith teg.

Mae ein cyngor ar dryloywder trefniadau tâl uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig wedi cael derbyniad da hefyd, a byddem yn annog pob corff cyhoeddus i fabwysiadu'r canllawiau arfer da a gyhoeddwyd gennym i wella tryloywder a chysondeb rhwng trefniadau. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn gwneud cyfraniad defnyddiol at y ddadl ehangach a diddordeb y cyhoedd yn nhryloywder y broses o benderfynu ar bolisïau tâl ac adrodd ar dâl uwch reolwyr.

Bydd ein gwaith yn y flwyddyn sydd i ddod yn canolbwyntio ar ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus Cymru, rheoli newid a chynllunio ar gyfer gweithlu gwasanaethau cyhoeddus sy'n angenrheidiol i ateb y galw yn y dyfodol. Rydym yn parhau i gydnabod bod sefydliadau yn wynebu llawer o heriau, ac wrth iddynt geisio arbed mwy o arian pan fo'r galw am wasanaethau yn cynyddu, yna mae'n rhaid diogelu diddordebau staff hefyd.

Mae'r Comisiynwyr a minnau wedi ymrwymo'n llawn i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda Chyngor Partneriaeth y Gweithlu er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar y gweithlu o ganlyniad i newidiadau i wasanaethau cyhoeddus. Bydd gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth a phrofiad yn caniatáu i ni barhau i ddatblygu canllawiau a chyngor priodol sy'n ystyried cyfansoddiad amrywiol gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus ochr yn ochr â'r gofyn am wasanaethau cyhoeddus cynaliadwy ac o ansawdd ar gyfer y dyfodol.

Edrychaf ymlaen at eich cefnogaeth barhaus yn y flwyddyn sydd i ddod.

Gill Lewis

**Gill Lewis, Cadeirydd**

# Trosolwg

Diben yr adroddiad blynyddol yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed gennym rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017.

Cafodd ein llythyr cylch gwaith[1] oddi wrth Weinidogion Cymru a'n Cynllun Gweithredol[2] eu cymeradwyo ym mis Ionawr 2016, ac mae copïau ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.

Ym mis Mai 2016, cyhoeddwyd adroddiad sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ionawr 2016 a mis Mawrth 2016[3].

A ninnau'n sefydliad anstatudol, y cylch gwaith a roddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2016 o dan a60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006) sy'n ei gwneud yn bosibl i ni gyflawni ein Cynllun Gweithredol[4].

# Cyflawniadau allweddol 2016-17

Ymhlith y cyflawniadau allweddol ar gyfer 2016-2017 mae:

- Cyhoeddi ein cyngor a'n canllawiau ar y defnydd priodol o drefniadau oriau heb eu gwarantu ym mis Medi 2016. Mae'r cyngor a'r canllawiau wedi cael eu croesawu gan undebau llafur a chyflogwyr sy'n aelodau o Gyngor Partneriaeth y Gweithlu, ac wedi cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru.
- Cymryd rhan yn y gynhadledd i Arweinwyr AD ym mis Ebrill 2016 a chynhadledd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru ym mis Mehefin 2016, nid yn unig er mwyn hyrwyddo ein rôl ond i ddysgu gan eraill ac ymgorffori profiadau sefydliadau eraill yn ein gwaith.
- Lansio ein gwefan ym mis Mai 2016, sy'n cael ei defnyddio gan eraill i gael gwybodaeth am ein rôl, ein diben, ac i ymgyfarwyddo'n gyson â'r datblygiadau sy'n gysylltiedig â'n gwaith.
- Cyhoeddi ein cyngor a'n canllawiau ar dryloywder trefniadau tâl uwch reolwyr ym mis Rhagfyr 2016. Mae undebau llafur a chyflogwyr sy'n aelodau o Gyngor Partneriaeth y Gweithlu wedi croesawu'r canllawiau.
- Gweithio ar y cyd ag aelodau o Gyngor Partneriaeth y Gweithlu er mwyn cytuno ar feysydd o flaenoriaeth i ddiogelu diddordebau staff sy'n gweithio i Lywodraeth Leol, fel rhan o gynigion diwygio Llywodraeth Cymru. Bydd y gwaith cynnar hwn yn hysbysu ein cylch gwaith yn 2017-18.

[1] Llythyr Cylch Gwaith www.gov.wales/docs/pssc/publications/160525-remit-letter-cy.pdf
[2] Cynllun Gweithredol 2016-2017 www.gov.wales/docs/pssc/publications/160127-operational-plan-2016-2017-cy.pdf
[3] Adroddiad Blynyddol Ionawr – Mawrth 2016 www.publicservicesstaffcommission.gov.wales/guidance-and-reports/annual-report-2016?lang=cy
[4] www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents

# Ein rôl a'n diben

Cafodd Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n sefydliad annibynnol anstatudol, ei sefydlu yn ystod hydref 2016 er mwyn cynghori Gweinidogion Cymru a sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu sy'n deillio o ddiwygiadau i wasanaethau cyhoeddus y byddai angen cymryd camau a gwneud penderfyniadau yn eu cylch.

Yn ystod 2016-17, roedd Cyngor Partneriaeth y Gweithlu (y CPG) yn gweithredu fel ein prif bwynt cyfeirio. Mae'r CPG yn dwyn yr undebau llafur, cyflogwyr ym maes gwasanaethau cyhoeddus a Llywodraeth Cymru ynghyd ac yn gweithredu ar sail gwerthoedd partneriaeth gymdeithasol.

Mae ein diben hefyd yn seiliedig ar yr egwyddor y byddem yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a sectoraidd, drwy fabwysiadu dull 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus' i helpu i ddatblygu a lledaenu trefniadau gweithlu sy'n arfer da ym mhob rhan o'n gwasanaethau cyhoeddus.

Mae gan Gymru record falch o fabwysiadu 'Ffordd Gymreig' o weithio sy'n cynnwys y weledigaeth 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus' hon ac ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth hefyd. Nid yw hyn yn golygu y gall cyflogwyr ac undebau llafur gytuno bob tro, ond mae'n golygu eu bod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r problemau ar y cyd a cheisio datblygu atebion ar y cyd pryd bynnag y gallant. Felly, mae'r ffordd rydym wedi ceisio llywio a chyflawni ein gwaith yn ystod y flwyddyn wedi cael ei llywio gan waith y CPG hyd yn hyn, gan gynnwys 'Partneriaeth a Rheoli Newid'[5] y cytunwyd arno yn 2012.

Daeth ein blaenoriaethau strategol yn ystod 2016-17 o'n llythyr cylch gwaith a'r amcanion a geir yn *'Gweithio Gyda'n Gilydd dros Gymru – Fframwaith Strategol ar gyfer Gweithlu Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru*' (2012)[6] ac maent yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. creu gweithlu brwdfrydig, llawn cymhelliant ac uchel ei berfformiad;
2. denu a chadw talent;
3. datblygu sgiliau;
4. sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

[5] Mae 'Partneriaeth a Rheoli Newid' yn un o gytundebau Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ar y broses i'w dilyn gan y partneriaid cymdeithasol (cyflogwyr ac undebau llafur) wrth weithio mewn partneriaeth i reoli newid fel rhan sylfaenol o wella sut y darperir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

[6] www.gov.wales/docs/dpsp/publications/120525worktogethercy.pdf

Mae'r egwyddorion canlynol yn esbonio'r ffordd y cytunwyd arni gyda'r CPG o weithio gydag eraill er mwyn cyflawni ein cynllun yn llwyddiannus:

Byddwn yn ffynhonnell o gyngor awdurdodol, sy'n annibynnol o'r Llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus sydd o fewn ei chwmpas.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda'r CPG; undebau llafur a chyflogwyr ym maes gwasanaethau cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd a rennir gan wasanaethau cyhoeddus a gweithlu gwasanaeth cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a sectoraidd er mwyn helpu i ddatblygu a lledaenu trefniadau gweithlu sy'n arfer da, gan gynnwys recriwtio a chadw staff, ym mhob rhan o'n gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn bwynt cyfeirio unigol i gael mwy o gysondeb, cydlyniant a chydgysylltiad rhwng trefniadau gweithlu er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu diwygio, a hynny tra'n hybu tegwch a thriniaeth deg.

Ni fyddwn yn disodli trefniadau bargeinio ar y cyd nac ychwaith yn ymyrryd mewn anghydfodau lleol rhwng Gweinidogion Cymru, undebau llafur a chyflogwyr.

Mae Atodiad A yn crynhoi'r cyrff cyhoeddus hynny a gwmpaswyd gan ein cylch gwaith yn 2016-17.

Rydym hefyd yn ymgorffori'r nodau y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn ceisio eu cyflawni ar y cyd yn ein gwaith, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[7].

## Trefniadau llywodraethu

Mae gwybodaeth am y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a Chomisiynwyr eraill ar gael ar ein gwefan. Mae copïau o agendâu a chofnodion ein cyfarfodydd a gweithgareddau eraill y cymerwyd rhan ynddynt[8] ar gael ar ein gwefan hefyd.

Ym Mis Rhagfyr 2016, penderfynodd Harry Thomas roi'r gorau i'w rôl fel Comisiynydd ar ôl gwneud cyfraniad gwerthfawr at y broses o sefydlu'r Comisiwn Staff yn ei flwyddyn gyntaf.

Ym mis Ionawr 2017, ymunodd Margaret Thomas â'r Comisiwn Staff fel aelod cyfetholedig i ychwanegu at wybodaeth a phrofiad yr undebau llafur ar y Comisiwn Staff.

Rydym yn cael ein hariannu gan Lywodraeth Cymru ac, yn ystod 2016-17, gwariwyd £332k i dalu am gostau cynnal y Comisiwn Staff yn bennaf, gan gynnwys costau'r Comisiynwyr, y staff a gwariant ar TGCh.

[7] www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-cy.pdf
[8] www.publicservicesstaffcommission.gov.wales/about-us/?lang=cy

## Perthynas â Llywodraeth Cymru

Yn ystod 2016-17, rydym wedi cyfarfod ag Ysgrifenyddion perthnasol y Cabinet a Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn rheolaidd i drafod y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith a chyfeiriad y Comisiwn Staff yn y dyfodol.

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol am ein cylch gwaith. Mae Llywodraeth Cymru felly'n gweithredu fel 'noddwr', yn fwy na dim i sicrhau bod y prif nodau ac amcanion a nodir yn y llythyr cylch gwaith oddi wrth Weinidogion Cymru yn cael eu cyflawni. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd; y Prif Weithredwr a'r Comisiynwyr sy'n gyfrifol am hyn.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi parhau i'n 'cynnal', sy'n ymarferol yn golygu bod cymorth ymarferol yn cael ei ddarparu i redeg swyddfa o ddydd i ddydd megis cyfleusterau, TGCh, systemau cyllid ac AD.

# Cyflawni ein cynllun

## Gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol

Drwy gydol 2016-2017, ceisiwyd cyngor, gwybodaeth a thystiolaeth gan yr undebau llafur a'r cyflogwyr sy'n aelodau o'r CPG i gefnogi'r ffordd rydym yn gwneud ein gwaith. Ymgysylltwyd â nhw ar waith sydd ar y gweill, a helpodd hyn i lywio trafodaethau diweddarach ar ddrafftiau cynnar a'r broses o gytuno'n derfynol ar y ddau ganllaw a darn o gyngor a gyhoeddwyd eleni.

Yn ystod y flwyddyn, roeddem yn bresennol yn ystod cyfarfodydd y CPG ym mis Gorffennaf 2016, mis Tachwedd 2016 a mis Mawrth 2017.

## Canllawiau ar y defnydd priodol o drefniadau oriau heb eu gwarantu

Ym mis Medi 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Staff ei ganllawiau cyntaf ar y defnydd priodol o drefniadau oriau heb eu gwarantu[9]. Wrth lunio'r gwaith hwn, ystyriwyd trefniadau ehangach, yn hytrach na chontractau dim oriau yn unig, sy'n galluogi sefydliadau i drefnu eu gweithluoedd mewn modd hyblyg er mwyn bodloni'r galw amrywiol am wasanaethau neu gyflenwi dros dro yn achos absenoldeb aelodau parhaol o'r gweithlu. Cafodd y rhain eu diffinio'n fras fel trefniadau oriau heb eu gwarantu.

[9] www.publicservicesstaffcommission.gov.wales/news/principles-and-guidance-use-of-non-guaranteed-hours-arrangements?skip=1&lang=cy

Bydd yr egwyddorion a’r canllawiau yn galluogi sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a’u hundebau llafur cydnabyddedig i gydweithio er mwyn adolygu ac ystyried y trefniadau sydd ganddynt ar waith ar hyn o bryd, a’r rhai y bydd angen eu datblygu ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cefnogi mwy o gysondeb a chydlyniant yn y ffordd y caiff trefniadau gweithlu hyblyg eu datblygu a’u hystyried o fewn ein gwasanaethau cyhoeddus.

Yn unol â’n cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru, gwnaethom gydweithio â’r CPG a’i bedwar grŵp sector (Llywodraeth Leol, Iechyd, Addysg a Gwasanaethau Datganoledig) er mwyn ymateb i gais Gweinidogion Cymru am lunio cyngor a chanllawiau ar ddefnyddio contractau dim oriau.

“*Mae ein cyngor a’n canllawiau yn rhoi meincnod cadarnhaol ar gyfer ein partneriaid cymdeithasol er mwyn sicrhau bod trefniadau o’r math hwn, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn briodol, yn effeithiol ac yn cefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon i bobl yng Nghymru*.”
**Gill Lewis, Cadeirydd y Comisiwn**

“*Mae trefniadau gweithlu hyblyg yn angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol. Rydym yn croesawu datblygu’r egwyddorion a’r canllawiau hyn, a fydd yn helpu ein sefydliadau i sicrhau bod trefniadau yn briodol ac yn effeithiol*.”
**Alison Ward, cyd-ysgrifennydd y CPG ar ochr y cyflogwyr**

“*Er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol, rhaid cael gweithlu ymroddgar sy’n llawn cymhelliant. Rydym yn cydnabod bod angen rhywfaint o hyblygrwydd ar gyflogwyr yn eu trefniadau gweithlu er mwyn delio â galw amrywiol, ond mae angen i hyn fod yn gymesur ac wedi’i ddiffinio. Rydym yn croesawu’r cyngor a’r canllawiau a fydd yn ein galluogi i weithio gyda sefydliadau er mwyn sicrhau bod trefniadau o’r math hwn yn briodol, nawr ac yn y dyfodol*.”
**Julie Cook, cyd-ysgrifennydd y CPG ar ochr yr undebau llafur**

Cafodd y canllawiau hefyd eu rhoi fel cyngor i Lywodraeth Cymru drwy Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Cynghorwyd y dylai’r sefydliadau datganoledig sydd wedi’u cynnwys yn ein cylch gwaith fabwysiadu’r egwyddorion a’r canllawiau. Cynghorwyd hefyd y dylid annog y sefydliadau hynny nad ydynt wedi’u cynnwys yn ein cylch gwaith i fabwysiadu’r egwyddorion a’r canllawiau.




Ar 6 Rhagfyr 2016, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y canllawiau i bob cyflogwr yn y sector cyhoeddus datganoledig, gan bwysleisio pwysigrwydd trin gweithlu’r gwasanaethau cyhoeddus yn deg a chyfiawn, y flaenoriaeth a roddir i hyn gan Lywodraeth Cymru a’r berthynas rhwng hyn a darparu gwasanaethau cyhoeddus gwych[10].

[10] Datganiad y Cabinet ar y defnydd priodol o drefniadau oriau heb eu gwarantu
www.gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/nonguaranteedhours/?skip=1&lang=cy

Bydd y CPG yn adolygu p’un a yw’r canllawiau wedi cael eu hymgorffori’n ddigonol erbyn 2018 ac, os oes tystiolaeth nad yw’r canllawiau wedi cael eu mabwysiadu’n dda, byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried a ddylai fod yn orfodol rhoi’r canllawiau ar waith.

## Tryloywder trefniadau tâl uwch reolwyr

Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddwyd cyngor ac adroddiad ategol ‘Tryloywder Tâl Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru – sylwadau a ffordd ymlaen a gynigir’[11].

Gwnaethom weithio gyda’r CPG i ymateb i gais Gweinidogion Cymru i ddatblygu cyngor a chanllawiau ar Fframwaith Llywodraeth Cymru ar ‘Dryloywder




Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru’.

“*Yn ein barn ni, mae Fframwaith Llywodraeth Cymru yn glir ac nid yw’n afresymol o ran y baich sydd ar gyrff cyhoeddus i gynhyrchu’r wybodaeth yn flynyddol*.”
**Gill Lewis, Cadeirydd y Comisiwn Staff**

“*Rydym ill dau yn croesawu cyhoeddi’r cyngor a’r canllawiau hyn gan Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus. Edrychwn ymlaen at gydweithio er mwyn parhau i wneud cynnydd ar faterion sydd o ddiddordeb i gyflogwyr ac undebau llafur fel ei gilydd, gan adeiladu ar y berthynas waith dda hyd yma*.”
**Alison Ward a Julie Cook, Cyd-Ysgrifenyddion Cyflogwyr ac Undebau Llafur y CPG**

Wrth ddatblygu ein cyngor, rydym wedi ystyried datgeliadau o dâl uwch reolwyr gan 48 o gyrff yng Nghymru, sy’n cynnwys Llywodraeth Cymru fel cyflogwr, y GIG, Llywodraeth Leol a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod blwyddyn gyntaf mabwysiadu’r fframwaith, daethom i’r casgliad bod cynnydd wedi cael ei wneud o ran rhoi gofynion fframwaith Llywodraeth Cymru ar waith, ond ein cyngor yw y gellid gwneud mwy mewn rhai meysydd allweddol i esbonio sut y pennir tâl uwch reolwyr, a hynny drwy rannu gwybodaeth am dâl, cyhoeddi polisïau tâl ac esbonio penderfyniadau.

Rydym wedi cynnwys yn ein hadroddiad, fel canllawiau atodol i Fframwaith presennol Llywodraeth Cymru, enghraifft o ddatganiad ar bolisïau tâl a datgeliadau arfer da y gellid eu cynnwys mewn adroddiadau blynyddol.

[11] Cyngor a chanllawiau ar Fframwaith Llywodraeth Cymru ar ‘Tryloywder Trefniadau Tâl Uwch Reolwyr’

Mae ein canllawiau hefyd wedi cael eu rhoi fel cyngor i Lywodraeth Cymru drwy Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Rydym wedi cynghori y dylai'r sefydliadau datganoledig sydd wedi'u cynnwys yn ein cylch gwaith fabwysiadu'r cyngor a'r canllawiau. Rydym hefyd wedi cynghori y dylid annog y sefydliadau hynny nad ydynt wedi'u cynnwys yn ein cylch gwaith i fabwysiadu Fframwaith Llywodraeth Cymru, ein cyngor a'n canllawiau.

## Cynllunio'r gweithlu

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi hybu'r porth Rhaglen Cyfnewid Pobl Cymru[12] a sefydlwyd drwy is-grŵp Cynllunio'r Gweithlu a Symudedd y CPG. Mae'r porth yn rhoi'r cyfle i gyflogwyr ym maes gwasanaethau cyhoeddus datganoledig dynnu sylw cyflogeion gwasanaethau cyhoeddus datganoledig ledled Cymru at swyddi, benthyciadau a secondiadau. Mae hyn yn cynnwys iechyd, awdurdodau lleol, addysg uwch, addysg bellach, ysgolion, gwasanaethau tân ac achub, Llywodraeth Cymru, Parciau Cenedlaethol a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

RHAGLEN CYFNEWID POBL CYMRU
PEOPLE EXCHANGE CYMRU

Mae hyn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu 'Un Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer Cymru', gyda'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ffurfio rhan o ymdrech gyffredin, yn rhannu gwerthoedd cyffredin ac yn cydweithio er budd pobl yng Nghymru.

Ers mis Medi, rydym hefyd wedi gweithio gydag is-grŵp Cynllunio'r Gweithlu a Symudedd, sy'n cael ei gadeirio gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth, i gytuno ar raglen waith i'w chyflawni mewn partneriaeth gymdeithasol a fydd yn sicrhau mwy o gysondeb a chydgysylltiad gwell rhwng trefniadau cynllunio gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth oddi wrth ystod o gyrff cyhoeddus am eu dulliau presennol o gynllunio'r gweithlu, ac wedi ystyried yr arferion data a gwybodaeth a allai alluogi cyflogwyr i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gofynion y gweithlu yn y dyfodol. Yn ogystal, rydym hefyd wedi casglu gwybodaeth am yr ystod eang o fentrau, cynlluniau ac asiantaethau sy'n cynnig cefnogaeth i ddatblygu sgiliau craidd a hanfodol y gweithlu.

Wrth i arian cyhoeddus barhau i ostwng a'r galw am wasanaethau gynyddu, mae'r mathau o wasanaethau sydd eu hangen yn debygol o newid. Bydd gofyn i weithlu'r gwasanaethau cyhoeddus addasu, a bydd angen gweithredu i wneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus a lleihau'r risg o ddileu swyddi drwy rannu gwybodaeth a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd hyfforddi er mwyn datblygu sgiliau. Y nod yw rhoi fframwaith ar waith a fydd yn helpu symudedd ac yn cryfhau prosesau integredig ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn rhanbarthol ac yn gydweithredol ym mhob rhan o wasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn parhau i wneud y gwaith hwn yn gynnar yn 2017-18 fel rhan o'n cylch gwaith.

[12] www.peopleexchangecymru.org.uk/hafan

## Diwygio Llywodraeth Leol

Ddechrau mis Ebrill, roeddem yn parhau i wneud gwaith paratoi ar gynigion i gyhoeddi canllawiau i'r Pwyllgorau Pontio a oedd i fod i gael eu sefydlu drwy'r cynigion yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft ar y pryd. Dechreuodd y gwaith paratoi hwn yn ystod hydref 2015.

Roeddem wedi dechrau rhoi trefniadau ar waith i gefnogi rhaglen waith a oedd yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, ystyried materion sy'n gysylltiedig â recriwtio, cadw staff, cynllunio'r gweithlu, rheoli perfformiad, gwerthoedd, ymddygiadau arwain a datblygu. Roeddem yn bwriadu cyhoeddi canllawiau i Bwyllgorau Pontio ar ôl hynny ac erbyn haf 2016.

Felly, mae'r adolygiadau dilynol i gynigion Llywodraeth Cymru i ddiwygio Llywodraeth Leol wedi cael effaith ar y ffordd rydym wedi mynd â gwaith ymlaen yn y maes hwn. Yn dilyn y cyhoeddiadau a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn ystod hydref 2016 sy'n gosod cyfeiriad tebygol y cynigion diwygio diwygiedig, gwnaethom ddechrau casglu gwybodaeth i ystyried y goblygiadau posibl i'r gweithlu.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos â'r rhai sy'n gweithio yn y sector Llywodraeth Leol ar hyn o bryd; yn bennaf yr aelodau o grŵp sector Llywodraeth Leol y CPG, aelodau o rwydwaith Cyfarwyddwyr AD Llywodraeth Leol, aelodau o Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru, ac wrth gwrs Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ym mis Ionawr 2017, cafodd aelodau o'r CPG weld crynodeb o'r cyngor a'r canllawiau posibl a fyddai'n diogelu diddordebau staff yn ystod unrhyw gyfnod o ddiwygio ac yn helpu i fynd i'r afael â'r goblygiadau i'r gweithlu sy'n deillio o'r cynigion diwygiedig.

Ym mis Mawrth 2017, ystyriodd y CPG y crynodeb hwn fel rhan o drafodaeth ehangach am ein cylch gwaith yn 2017-18. Ni fydd ein cyngor a'n canllawiau yn disodli cytundebau bargeinio ar y cyd sy'n bodoli eisoes.

## Ymgysylltu a Chyfathrebu

### Ar hyd y lle


Rydym wedi ymrwymo i ddull cyson ac effeithiol o ymgysylltu. Ar ôl cael ein sefydlu yn 2015, gwnaethom symud yn gyflym drwy fynd allan a chyfarfod â'r holl sefydliadau hynny a gwmpesir gan ein cylch gwaith (Atodiad A).

Rydym wedi parhau i gyfarfod â Llywodraeth Cymru, undebau llafur a chyflogwyr drwy gydol 2016-17 er mwyn:

- deall natur y mater, pa mor gyflym mae angen ymdrin ag ef a graddfa'r mater;
- deall yr effaith debygol ar staff a'r gwasanaeth cyhoeddus y mae'n rhaid ei ddarparu;
- rhoi'r cyfle i gyflwyno adborth, trafod a dadlau cyn penderfynu ar ein cyngor yn derfynol;
- datblygu cyngor cynaliadwy, creadigol ond ymarferol ar y materion.

## Gwefan

Ym mis Mai 2016, cafodd ein gwefan ei lansio er mwyn i bawb gael gwybodaeth am ein gwaith ac ymgyfarwyddo'n gyson â datblygiadau.





Rydym wedi defnyddio'r wefan i gyhoeddi ein cyngor a'n canllawiau i Weinidogion a sefydliadau, yn ogystal â gwybodaeth am y sefydliad gan gynnwys ein Cynllun Gweithredol, Adroddiadau Blynyddol, gweithgareddau ymgysylltu ac agendâu a chofnodion ein cyfarfodydd.

## Digwyddiadau

- **Y 5ed Digwyddiad Blynyddol i Arweinwyr AD Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Ym mis Ebrill 2016, cawsom ein gwahodd i gynnal gweithdy yn y 5ed Digwyddiad Blynyddol i Arweinwyr AD Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Thema'r digwyddiad, a drefnwyd gan Academi Wales, oedd 'Datblygu Diwylliant drwy Arwain ar y Cyd', a'i ddiben oedd archwilio sut y gallwn barhau i helpu ein gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni ar gyfer pobl Cymru drwy weithio gyda'n gilydd fel cymuned AD Un Gwasanaeth Cyhoeddus.




Yn ystod ein gweithdy rhyngweithiol, trafodwyd dwy thema sy'n ganolog i'n rhaglen waith â'r rhai a gymerodd ran:

- Llywio rôl yr arweinydd AD;
- Deall sut rydym yn cynllunio ar gyfer gofynion ein gweithlu ar hyn o bryd.

Gwnaethom hefyd hybu ein rôl a'n diben, siarad am ein cynllun gweithredol a rhoi gwybod sut y gellir cysylltu â ni a bod yn rhan o'n gwaith yn ystod y digwyddiad hwn.

- **Y Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Ym mis 2016, ymunwyd â thua 120 o gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru yn ystod cynhadledd flynyddol y Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n canolbwyntio ar yr heriau a'r cyfleoedd i weithlu'r dyfodol.




Roedd ein Prif Weithredwr, Alison Phillips, yn aelod o'r panel yn y gynhadledd a drafododd nifer o'r themâu allweddol a ystyriwyd yn ystod y digwyddiad, sef:

- yr heriau o ran cyflogaeth sy'n wynebu Cymru yn ystod y 5 mlynedd nesaf;
- y math o arweinyddiaeth sydd ei hangen i ddatblygu cydraddoldeb a hawliau dynol;
- sut i symud cydraddoldeb a hawliau dynol i agenda ataliol;
- creu gweithleoedd sy'n croesawu ffydd yn fwy;
- sut y gall cydraddoldeb fod yn rhan o'r broses o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Roedd yr hyn a ddysgwyd yn ystod y ddau ddigwyddiad yn pwysleisio'r angen i werthfawrogi'r gweithlu, i'w drin yn deg a'i gefnogi i ddysgu sgiliau newydd er mwyn iddo allu gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy a gwell ar adeg pan fo arian yn gostwng a'r galw am wasanaethau yn newid.

# Edrych Ymlaen

## Cynllun gwaith ar gyfer 2017-18

Roedd ein llythyr cylch gwaith gwreiddiol yn cydnabod y byddai angen iddo gael ei adnewyddu yn sgil etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016 ac unrhyw newidiadau posibl i sefyllfa bolisi Llywodraeth Cymru.

Ers yr etholiadau hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad â llywodraeth leol a phartneriaid ehangach am yr achos dros ddiwygio a'r dulliau posibl y gallai Cymru eu mabwysiadu i ddatblygu cydnerthedd. 'Roedd trafodaethau yn ystod haf 2016 yn pwysleisio bod angen ac awydd o hyd am ddiwygio, wedi'i ategu gan fwy o waith rhanbarthol, gan adeiladu ar fwyafrif y cynigion a fu'n destun ymgynghoriad cynt'[13]. Mae'r trafodaethau hyn wedi arwain at gyhoeddi cynigion newydd yn y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad'.

[13] www.ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/diwygio-llywodraeth-leol-cadernid-ac-adnewyddiad

Yn ystod 2017-18, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Rhoi cyngor a chanllawiau i ddiogelu diddordebau staff cyflogedig sy'n gweithio o fewn Llywodraeth Leol; dysgu o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus eraill ac adeiladu ar arfer da presennol o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol a cheisio cyfarwyddyd, tystiolaeth o arfer da a chymorth gan aelodau o Gyngor Partneriaeth y Gweithlu i gyflawni ein cylch gwaith.
- Rhoi cyngor a chanllawiau a fydd yn helpu symudedd y gweithlu ac yn cryfhau prosesau integredig ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn rhanbarthol neu'n gydweithredol ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus.
- Parhau i weithredu'n annibynnol o Lywodraeth Cymru, rhannu gwybodaeth am ein gwaith a hybu arfer da a chyfleoedd i sicrhau mwy o gysondeb, cydlyniant a chydgysylltiad rhwng gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu.

## Tu Hwnt i 2017-18

Fel rhan o gynigion y Papur Gwyn, ni fydd y Comisiwn Staff yn dod yn gorff statudol mwyach fel y bwriadwyd yn flaenorol, a bydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2018. Tan hynny, byddwn yn parhau i roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu o dan gyfeiriad strategol y CPG. Cafodd y bwriad hwn ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru yng nghyfarfod y CPG ym mis Tachwedd 2016, fel rhan o ystyriaethau ar rôl a chyfrifoldebau'r CPG yn ehangach.

Bydd y CPG yn cael ei adolygu hefyd yn ystod 2017-18, ar y cyd â phartneriaid cymdeithasol sy'n gweithio gyda'i gilydd. Diben yr adolygiad hwn yw sicrhau bod gan y CPG rolau, cyfrifoldebau a strwythurau clir i ysgogi gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Bydd unrhyw waith na allwn ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2018 yn cael ei drosglwyddo i'r trefniadau newydd ar gyfer y CPG, fel rhan o broses bontio esmwyth.

# Atodiad A – Cyrff Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn y cwmpas

Ar hyn o bryd, mae'r cyrff gwasanaethau cyhoeddus a gwmpesir gan gylch gwaith y Comisiwn anstatudol yn cynnwys:

- Cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru.
- Cyngor tref neu gymuned.
- Awdurdodau Tân ac Achub.
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.
- Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG.
- Cyngor Gofal Cymru (Gofal Cymdeithasol Cymru o fis Ebrill 2017 ymlaen).
- Corff llywodraethu ysgol neu ffederasiwn a gynhelir.
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.
- Cyngor Celfyddydau Cymru.
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru.
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru.
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- Cyngor Chwaraeon Cymru.
- Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

Yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010, mae Llywodraeth Cymru (fel cyflogwr) yn ystyried yn wirfoddol ei bod o fewn y cylch gwaith a bydd yn talu sylw i'r canllawiau ac yn eu defnyddio ar yr un sail â chyrff eraill.